**PET(3) 11-10 – Papur Briffio – Atrodiad 2**

**Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gweithredu dros Blant**

# Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau – Darpariaeth dysgu yn y gwaith i bobl ifanc agored i niwed

## Pwrpas

Mae Action for Children – Gweithredu dros Blant yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r sesiwn dystiolaeth pwyllgor yr ydym yn ei mynychu ar 28ain Medi. Bydd y papur hwn yn amlinellu profiadau pobl ifanc agored i niwed sy'n byw'n annibynnol, ar raglenni dysgu yn y gwaith.

## Cefndir

Yr ydym yn falch fod y pwyllgor deisebau wedi rhoi sylw i'r materion a godwyd gennym ynghylch cynlluniau dysgu yn y gwaith ac wedi lansio'n ymchwiliad hwn gan y pwyllgor deisebau.

Mae ein cyflwyniad yn ymdrin â'r meysydd y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor fel cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad. Mae ein tystiolaeth yn seiliedig ar ein profiad ym mhrosiect Action for Children – Gweithredu dros Blant, Rhwydwaith Brynmawr, sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc sy'n gadael gofal a rhai digartref ym Mlaenau Gwent, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent. Bu'r prosiect yn darparu'r gwasanaeth hwn ym Mlaenau Gwent am 12 mlynedd ac y mae wedi cefnogi oddeutu 500 o bobl ifanc, llawer ohonynt wedi derbyn cefnogaeth bersonol am gyfnod sylweddol. Ein profiad o redeg y gwasanaeth hwn sy'n ein galluogi i gyflwyno'n tystiolaeth i'r pwyllgor.

Cyflwynir ein tystiolaeth dan y penawdau a amlinellwyd gan y pwyllgor yn eu cylch gorchwyl.

**Argaeledd ac ansawdd rhaglenni hyfforddi, a lleoliadau yn y gwaith, yn enwedig lleoliadau addas ar gyfer pobl ifanc agored i niwed**

O'n profiad ni, nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau dysgu yn y gwaith yn darparu'n dda ar gyfer pobl ifanc agored i niwed ac y mae nifer sylweddol o bobl ifanc yn methu.

Fel arfer, mae gan y bobl ifanc agored i niwed sydd ar y cynlluniau hyfforddi hyn drafferthion niferus megis: iechyd meddwl a phroblemau ymddygiad, bod â bylchau mawr yn eu haddysg, oherwydd presenoldeb gwael a gadael yr ysgol yn gynnar, perthnasoedd negyddol o fewn eu teuluoedd a chyda chymheiriaid, a dod o deuluoedd lle y maent, o bosibl y drydedd genhedlaeth i fod yn ddi-waith, yn ddibynnol ar fudd-daliadau, gyda fawr ddim modelau rôl na chefnogaeth. Yn ogystal, yn aml nid yw pobl ifanc ddigartref yn derbyn unrhyw gefnogaeth gan eu teuluoedd.

Teimlwn nad yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant wedi'u harfogi'n ddigonol i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau lluosog. Yn aml nid oes gan y staff a gyflogir yn y

canolfannau gefndir ym maes gofal cymdeithasol na'r sgiliau allweddol sy'n angenrheidiol i ymgysylltu â'r bobl ifanc fregus hyn a'u cefnogi. Yn waeth na hynny, bydd ganddynt weithiau ddiffyg empathi â'r bobl ifanc.

Mae ansawdd llawer o'r cynlluniau dysgu yn y gwaith yn wael gyda phobl ifanc yn cael fawr ddim i'w wneud ac yn aml yn cael eu hanfon adref neu'n gorffen yn gynnar, a allai gael effaith enfawr ar gymhelliant, a all fod yn fregus eisoes.

Mae prinder o leoliadau gwaith addas yn golygu fod pobl ifanc yn treulio wythnosau lawer yn y ganolfan hyfforddi, lle byddant yn colli diddordeb, ac, yn yr amgylchedd gwaith afrealistig hwn gall ymddygiad y bobl ifanc ddirywio, a dyma beth sydd yn digwydd yn aml. Ymddengys nad oes gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith fawr ddim adnoddau i'w cynnig i bobl ifanc na lwyddir i ganfod lleoliadau gwaith addas ar eu cyfer ar derfyn eu hasesiad a'u hyfforddiant cychwynnol.

Hefyd, deallwn, oherwydd y nifer cyfyngedig o leoliadau gwaith 'da', mai pobl ifanc 'llai heriol' sy'n derbyn y lleoliadau hynny. Gwneir hyn er mwyn atal y cyflogwyr rhag tynnu allan o'r rhaglen.

**Astudiaeth achos: M 17 oed**

**Argaeledd lleoliadau gwaith addas**
Yn dilyn cyfarfod gyda Gyrfa Cymru, argymhellwyd M ar gyfer cynllun dysgu yn y gwaith a fyddai'n darparu 30 awr yr wythnos iddo o hyfforddiant o ansawdd da a lleoliadau gwaith i gwrdd â'i anghenion.

Bu M yn mynychu am 12 wythnos; yr oedd yn cael ei anfon adref yn gynnar yn aml ac nid anfonwyd ef allan i unrhyw leoliadau gwaith. Gall oddeutu 30 o bobl ifanc fod yn y ganolfan hyfforddi, yn gwneud dim byd cynhyrchiol ac yn sefyll o gwmpas yn ysmygu.

Pan fydd ein staff yn galw i gwestiynu eu presenoldeb neu i eiriol ar ran y bobl ifanc, agwedd y darparwr yw 'maent yn cael eu talu £50 os ydynt yma neu ddim'. Nid yw eu darparwr hyfforddiant yn cyflawni gofynion ei gontract, ond mae brwdfrydedd a chymhelliant cychwynnol M wedi lleihau, ac mae o'r farn fod bob gwaith fel hyn.

## Dilyniant ar gyfer y person ifanc agored i niwed gan adeiladu ar sgiliau a chymwysterau a enillwyd yn y lleoliad blaenorol

Yn anffodus, nid yw cyfranogwyr llwyddiannus ar gynlluniau dysgu yn y gwaith fel arfer yn cyflawni ond NVQ lefel 1 – nid yw hyn yn ddigon da. Rydym yn canfod fod y bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn mynd o un cynllun hyfforddi i un arall, gan gyflawni fawr ddim, ac ar ôl cyrraedd 18 oed, yn mynd ar Lwfans Ceisio Gwaith.

Os bydd darparwr hyfforddiant yn teimlo fod gan berson ifanc "faterion" (cymhelliant, agwedd, diffyg prydlondeb ayb.) yn lle gweithio ar y mater hwnnw, gall rhai darparwyr roi tystysgrif iddynt ar ôl 12 wythnos a pheidio â rhoi 'cytundeb' arall iddynt. Yna gadewir y person ifanc i symud ymlaen i gynllun arall. Mae'r dystysgrif hon yn ddiystyr ac ni fydd yn eu cynorthwyo i ganfod cyflogaeth yn y dyfodol, ac yr ydym o'r farn fod yr arfer hwn yn annerbyniol.

**Astudiaeth achos: N 17 oed**

**Gadael y cynllun dysgu yn y gwaith yn gynnar heb gymwysterau**

Cychwynnodd N ar gynllun dysgu yn y gwaith a ddechreuodd gyda sawl wythnos yn gwneud sgiliau allweddol yn y ganolfan hyfforddi. Teimlai'r darparwr hyfforddiant fod gan N ddiffyg cymhelliant a bod ei ymddygiad yn wael. Felly ar ôl 12 wythnos cyflwynwyd tystysgrif sgiliau allweddol iddo a dywedwyd wrtho na fyddai'n cael cynnig cytundeb. Nid oedd gan N ddewis ond canfod cynllun hyfforddi arall, ond gyda rhestri aros anferth nid yw'n rhwydd, ac felly penderfynodd hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

**Cefnogaeth ariannol i bobl ifanc a ariennir yn annibynnol, gan gynnwys lwfansau hyfforddi, Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, budd-daliadau a chyllid ar gyfer costau teithio.**

Mae pobl ifanc digartref sydd ar gynlluniau dysgu yn y gwaith yn byw mewn tlodi mawr – derbyniant lai o gyfraniad yr wythnos na'r rhai ar Lwfans Ceisio Gwaith, ac y mae hynny oherwydd y canlynol:

- Mae pobl ifanc sy'n economaidd anweithredol ac yn mynd yn syth ar Lwfans Ceisio Gwaith / Cymhorthdal Incwm yn derbyn £51.85 yr wythnos yn ogystal â buddion pasport megis prawf llygaid am ddim a grantiau'r gronfa gymdeithasol.

- Mae pobl ifanc sydd ar gynllun NVQ mewn coleg yn derbyn £81.85 yr wythnos (£51.85 Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30).

- Ond bydd pobl ifanc ar gynlluniau dysgu yn y gwaith yn derbyn £45 neu £48 yr wythnos (£50 o lwfans hyfforddi llai cyfraniad at eu costau teithio a all fod yn £3 neu hyd yn oed yn £5).

Byddem yn argymell y dylid ychwanegu at lwfansau hyfforddi ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n byw'n annibynnol ar eu teuluoedd fel bod hyfforddi'n talu'n well na Lwfans Ceisio Gwaith.

Fel lleiafswm, credwn y dylai pobl ifanc sy'n ddigartref neu'n byw'n annibynnol ac ar gynlluniau dysgu yn y gwaith, fod yn gymwys bob amser i dderbyn y £11.85 ychwanegol o Lwfans Ceisio Gwaith, yn ogystal â buddion fel gwasanaethau optegydd neu grantiau'r gronfa gymdeithasol. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob ardal ar hyn o bryd gan nad yw Canolfannau Gwaith yn gyson wrth asesu hawliadau o galedi dan y Lwfans Ceisio Gwaith.

Yn ogystal, dylai pobl ifanc ar hyfforddiant yn y gwaith ac sy'n byw'n annibynnol hefyd dderbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

I ddisgrifio'n well sut y mae hyn yn effeithio ar fywydau pobl ifanc, disgrifiodd un gŵr ifanc a roes dystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau, sut yr oedd yn llwyddo i fyw'n annibynnol ar ddim ond £45 yr wythnos drwy ddewis rhwng bwyd a gwres; aeth heb wres gydol y gaeaf diwethaf.

**Astudiaeth achos: S 18 oed**

**Effaith ariannol dewis dysgu yn y gwaith**

Yr oedd S yn byw gyda'i Fam, ei frawd iau a phartner ei fam hyd nes i'r berthynas chwalu ac er gwaethaf cyfryngu, ni fu modd iddo ddychwelyd adref. Symudodd S i mewn i lety brys â chefnogaeth ac yna ymlaen i lety â chefnogaeth a oedd yn fwy addas iddo. Llwyddodd i gynnal ei le ar NVQ12 mewn cyfrifiadureg a TG er gwaethaf gorfod ymdrin â'r trawma o symud o'i gartref a newid ei lety.

Yr oedd cyfryngu pellach ac ymddygiad ei deulu'n golygu mai'r unig ddewis i S oedd paratoi i fyw'n annibynnol. Felly symudodd i Dŷ TS, sef tenantiaeth hunangynhaliol â chymorth gyda staff yn gysylltiedig. Tra'n byw yn Nhŷ TS yr oedd yn byw ar lwfans hyfforddi wythnosol o £50 a £0.95 o gymhorthdal incwm (a delid bob tri mis), ac yr oedd yn cael mynediad at fuddion pasport. Yr oedd yn dal dau fws bob bore a nos i fynd a dod o'i leoliad hyfforddi yng Nglyn Ebwy. Yr oedd £5 yn cael ei dynnu allan o'r ad-daliad o'i gostau teithio, felly roedd hynny'n gostwng ei incwm i £45.95 ac felly roedd yn byw mewn tlodi mawr.

Yr oedd ei leoliad hyfforddi nesaf ar gyfer NVQ2 yn Rhisga ac yr oedd yn rhaid iddo adael ei gartref am 7.30 y bore. I gwblhau NVQ2 yn y gwaith yr oedd angen i S barhau hyd nes ei fod yn 19 oed. Symudodd S i'w denantiaeth ei hun gyda'r cyngor gyda holl wariant deiliad tŷ ar ei ben ei hun, ac yr oedd yn parhau i dderbyn ond £45.95 yr wythnos. Pe byddai S ar gwrs gyda Choleg Gwent byddai'n gymwys am Gymhorthdal Incwm ynghyd â Lwfans Cynhaliaeth Addysg a byddai'n derbyn £80.95 yr wythnos. Rhoes S y gorau i'w hyfforddiant heb gyflawni ei NVQ2 ac y mae yn awr yn aros am Lwfans Ceisio Gwaith. Drwy dderbyn budd-daliadau bydd yn well allan yn ariannol.

Mae gan S ddyheadau o ran ei denantiaeth, ei ffordd o fyw a'i ddyfodol.

## Cefnogaeth bersonol ar gyfer pobl ifanc agored i niwed yn cynnwys gwahaniaethau o ran lefelau cefnogaeth ar gyfer rhai sy'n gadael gofal

Fel yr amlinellwyd eisoes, nid yw llawer o ddarparwyr hyfforddiant wedi'u harfogi'n ddigonol i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau lluosog. Nid oes gan y staff a gyflogir yn y canolfannau gefndir ym maes gofal cymdeithasol na'r sgiliau allweddol i ymgysylltu â'r bobl ifanc fregus hyn a'u cefnogi. Yn waeth na hynny, bydd ganddynt weithiau ddiffyg empathi â'r bobl ifanc.

Teimlwn fod angen i ddarparwyr hyfforddiant ganfod ac adeiladu ar gryfderau'r bobl ifanc fregus hyn, canfod a chynllunio i roi sylw i wendidau, bod yn fwy cydymdeimladol a darparu hyfforddiant a chefnogaeth hyblyg yn canolbwyntio ar y person, i'w cynorthwyo i lwyddo.

Rhaid gwerthfawrogi sgiliau meddal, gan eu gweld fel allwedd tuag at wneud llawer o'r bobl ifanc hyn yn fwy cyflogadwy. Byddai hyn yn cynnwys, cefnogi pobl ifanc i ddatblygu cyfrifoldeb drostynt eu hunain h.y. cyrraedd y gwaith ar amser, cyfrifoldeb yn eu man gwaith, cyfathrebu ac ymddygiad priodol yn eu man gwaith. Mae hybu hyder

a hunan-barch pobl ifanc hefyd yn chwarae rhan hanfodol o ran arfogi'r bobl ifanc hyn ar gyfer cyflogaeth a bywyd fel oedolion yn fwy cyffredinol.

Hoffem weld mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sy'n ceisio hyfforddiant a heb fod yng ngofal awdurdod lleol. Mae'r anghyfartaledd o ran darpariaeth ar gyfer y ddwy garfan hon o bobl ifanc sy'n wynebu'r un problemau yn amlwg iawn, fel y dengys yr astudiaeth achos isod.

**Astudiaeth achos: J 17 oed**

**Profiad person ifanc heb statws gadael gofal**

Gofynnwyd i J adael y cartref teuluol, ac felly hefyd ei chwaer o'i blaen. Allai hi ddim symud i mewn gyda'i Nain fel ei chwaer, doedd dim lle yno ac ni allai ei nain ymdopi â'r berthynas rhwng y ddwy chwaer. Gweithiodd J yn galed, gyda chefnogaeth, i fynd yn ôl adref, ond yn fuan symudodd ei mam o'r ardal gyda'i phartner, heb roi gwybod beth oedd ei chyfeiriad newydd.

Gyda chefnogaeth, ceisiodd J ymdopi â fflat, ond nid oedd ganddi'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn llwyddiannus. Doedd hi ddim eisiau 'teulu' arall ar y pryd gan ei bod yn gweithio drwy ddicter a loes, wedi i'w theulu ei gadael. Felly. Cafodd J afael ar lety â chefnogaeth a rhentu ystafell yng nghartref landlordiaid cefnogol. Mae bellach yn byw mewn amgylchedd strwythuredig, ac mae amseroedd penodol iddi fod i mewn bob nos a ffyrdd y disgwylir iddi ymddwyn gan ei bod yn byw mewn cartref gydag eraill. Er gwaethaf y tristwch yr oedd yn ymdopi ag ef, dechreuodd J ddilyn hyfforddiant mewn trin gwallt a chanolbwyntiodd ychydig mwy arni'i hun, gan gynnwys ei hymddangosiad.

Mae J yn derbyn budd-dal tai (rhent ystafell sengl) a £50 o lwfans hyfforddi. Mae'n talu £25 yr wythnos i'w landledi am nwy, treth dŵr a bwyd y mae'n ei baratoi ei hun. Mae hyn yn gadael £25 yr wythnos iddi ar gyfer cludiant i'r gwaith (sy'n costio £21 ac nid yw'n derbyn ond £16 o ad-daliad), nwyddau ymolchi, dillad, adloniant, torri'i gwallt, a thalu am gredyd ar ei ffôn symudol. Mae hi bellach yn 17 oed ac yn poeni y bydd gwasanaethau'n dod i ben ar ei phen-blwydd yn 18. Gan ei bod wedi'i 'gadael' ac nad yw'n dymuno cael ei 'lletya' mewn gofal maeth, teimla na ddylai hynny olygu y dylai gwasanaethau ddod i ben pan fydd hi'n cyrraedd 18 oed (adran 17, Deddf Plant 1989).

Mae J yn deall fod llety â chefnogaeth yn rhoi ychydig mwy o incwm gwario iddi nag a fydd ganddi pan fydd yn symud i fflat ac mae'n ofni na fydd moddi iddi ymdopi'n ariannol yn ei lle ei hun. Hoffai allu gorffen ei hyfforddiant, gweithio fel triniwr gwallt, a gallu fforddio'i lle ei hun.

Mae ffrindiau J yn cynnwys rhai sydd wedi gadael gofal y mae'n well arnynt yn ariannol na hi, ac mae hi'n aml yn digalonni wrth egluro ei bod yn parhau i deimlo wedi'i 'gadael' gan yr adran hyfforddi sy'n talu £1.95 yn llai iddi bob wythnos nac y byddai'n ei dderbyn pe bai ar fudd-daliadau. Disgwylir i J dalu £5 cyntaf ei chostau cludiant allan o'i lwfans hyfforddi wythnosol, gan ei gadael £7 yn waeth allan na phe bae hi ar fudd-daliadau. Heb unrhyw elfen o fudd-daliadau yn ei hincwm, nid oes modd iddi gael mynediad at gyllid ychwanegol megis grantiau'r gronfa gymdeithasol.

Mae J yn benderfynol o lwyddo, a byddai'n well ganddi beidio â byw mewn tlodi.

## Crynodeb / Argymhellion

Hoffai Action for Children - Gweithredu dros Blant i'r pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Dylai dysgu yn y gwaith ddarparu'n well ar gyfer pobl ifanc agored i niwed a darparu hyfforddiant hyblyg yn canolbwyntio ar y person, sy'n adeiladu ar gryfderau'r person ifanc a rhoi sylw i wendidau.

2. Dylai cynlluniau dysgu yn y gwaith greu dilyniant a symud y bobl ifanc yn wirioneddol yn nhermau eu gwybodaeth a'u sgiliau. Dylai'r cynlluniau sicrhau fod pobl ifanc yn gyffredinol yn cyflawni o leiaf NVQ2, a lle nad yw hyn yn amlwg yn bosibl, dylid datblygu portffolio cynhwysfawr yn dangos tystiolaeth o'r "sgiliau meddal" sydd wedi'u gwella gan yr hyfforddiant.

3. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu i atal y trosiant parhaus o bobl ifanc yn symud o un cynllun dysgu yn y gwaith i un arall.

4. Byddem yn argymell y dylid ychwanegu at lwfansau hyfforddi ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n byw'n annibynnol fel bod hyfforddi'n talu gwell cyfraddau na Lwfans Ceisio Gwaith. Dylai pobl ifanc ddigartref ar gynlluniau dysgu yn y gwaith dderbyn £30 yr wythnos o Lwfans Cynhaliaeth Addysg (heb fod ar sail prawf modd) ar ben i lwfans hyfforddi a chymhorthdal incwm, yn union fel pobl ifanc sy'n astudio NVQ mewn coleg.

5. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfathrebu i bob darparwr cefnogaeth bersonol i bobl ifanc y gall pobl ifanc ddigartref ar gynlluniau dysgu yn y gwaith hefyd wneud cais am Gymhorthdal Incwm sy'n rhoi mynediad iddynt at fudd-daliadau ychwanegol megis grantiau'r gronfa gymdeithasol pan fyddant yn sefydlu cartref.

6. Hoffem weld mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sy'n ceisio hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol. Dylai pobl ifanc ddigartref dderbyn cefnogaeth bersonol y tu hwnt i 18 oed ym mhob ardal yng Nghymru lle maent ei angen, fel y datgenir yn Ymestyn Hawliau, hyd yn oed os byddant, rhwng 16 a 18 oed wedi gwrthod derbyn llety gan yr Awdurdod Lleol.

7. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi terfyn ar yr anghymhelliad ariannol i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ac sydd mewn hyfforddiant - fel yr amlinellir uchod.